# Cofrestr Tai Cyffredin Caerffili
# Ffurflen Polisi Gosod Tai Lleol

| | | |
|---|---|---|
| **Manylion yr ardal dan sylw:** | Rhif: | 13a, 13b, 15a, 15b, 17a, 17b |
| | Heol/Heolydd: | Heol Poplys |
| | Tref: | Aberbargod |
| | Cod post: | |
| | | |
| **Manylion yr eiddo dan sylw:** | Nifer: | 4 fflat ag un ystafell wely<br>2 fflat â dwy ystafell wely |
| | Ystafelloedd gwely: | |
| | Math/Mathau: | |
| | Landlord/Landlordiaid: | |
| | | |
| **Rheswm dros wneud cais am bolisi gosod tai lleol:** | | Mae Heol Poplys yn ddatblygiad newydd ar safle tenantiaeth gymysg a hoffem ni wneud cais am bolisi gosod tai lleol ar gyfer y 6 gosodiad newydd ar y datblygiad hwn a fydd yn ein galluogi i greu cymuned gytbwys a chynaliadwy ac, felly, yn cynnig cymysgedd o ymgeiswyr ag anghenion a blaenoriaethau amrywiol i gael eu hystyried.<br><br>Gallai dyrannu ar sail angen yn unig arwain at grynhoad uchel o bobl ag anghenion cymorth, a allai effeithio ar gydbwysedd yr ystâd.<br>Mae’r eiddo hyn yn rhan o’r datblygiad newydd cyntaf gan Cartrefi Caerffili mewn partneriaeth â Llanmoor Homes ac mae’r 6 blaenorol wedi denu llawer o ddiddordeb. |
| **Crynodeb o'r sylfaen dystiolaeth i hyrwyddo'r polisi gosod tai lleol:** | | Mae'r bloc hwn o fflatiau mewn datblygiad newydd sbon o gartrefi preifat. Nhw yw'r unig fflatiau yn y datblygiad.<br>Roedd y gyfran gyntaf o eiddo yn cynnwys 6 fflat ag un ystafell wely a 2 dŷ, ac roedd polisi gosod tai lleol ynghlwm wrth y rhai sydd wedi bod yn llwyddiannus er gwaethaf negyddiaeth rhai o'r perchen-feddianwyr.<br>Er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y datblygiad tenantiaeth gymysg hwn, rydyn ni'n gofyn am atgynhyrchu’r polisi gosod tai lleol gwreiddiol ar gyfer y set gyntaf o ddyraniadau. |
| **Amcan y polisi gosod tai lleol:** | | Er mwyn sicrhau bod Cartrefi Caerffili yn gallu cyfrannu at gymuned gytbwys drwy sicrhau bod gan gwsmeriaid newydd ystod o brofiadau a gofynion, eu bod yn ymgysylltu ac yn ymatebol i’w rhwymedigaethau a’u cyfrifoldebau. |

| | |
|---|---|
| **Cyfyngiadau wrth osod tai:** | Mae Cartrefi Caerffili yn cynnig bod uchafswm o un aelwyd ag anghenion sy’n heriol i weithwyr proffesiynol neu sydd ag anghenion cymorth uchel yn cael ei chynnwys yn y datblygiad sy’n cyfateb i un aelwyd yn y bloc.<br><br>Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol ac yn cael ystyriaeth briodol a bydd yn cynnwys adolygu a oes gwybodaeth am ymgeiswyr sy’n nodi:<br><br>• Ymddygiad gwrthgymdeithasol blaenorol neu gyfredol sydd wedi arwain at golli llety;<br><br>• Ymddygiad gwrthgymdeithasol blaenorol sydd wedi arwain at gamau gorfodi (hysbysiad ceisio meddiant/gwaharddeb/meddiant/Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/gorchymyn cau)<br><br>• Cyflyrau iechyd meddwl sylweddol sy'n effeithio ar allu'r aelwyd i reoli tenantiaeth (pan nad yw meddyginiaeth naill ai ddim yn cael ei chymryd neu ddim yn profi'n effeithiol);<br><br>• Euog o ymddygiad troseddol sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnal tenantiaeth a/neu fyw gyda pharch mewn cymuned ag eraill;<br><br>• Achosion sylweddol o gamddefnyddio sylweddau;<br><br>**<u>Achosion sylweddol o gamddefnyddio sylweddau;</u>**<br><br>**Ychydig o eglurder ynghylch dehongli termau:**<br><br>Mae achosion sylweddol o gamddefnyddio sylweddau yn gallu cynnwys nam neu drallod o bwys, fel yr amlygir gan un (neu ragor) o'r canlynol, sy'n digwydd o fewn cyfnod o 12 mis:<br><br>• Defnydd rheolaidd o sylweddau sy'n arwain at fethu â chyflawni rhwymedigaethau allweddol yn y gwaith, yr ysgol neu'r cartref (er enghraifft, absenoldebau rheolaidd neu berfformiad gwaith gwael sy'n gysylltiedig â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | defnyddio sylweddau; absenoldebau, ataliadau neu ddiarddeliadau o'r ysgol yn gysylltiedig â sylweddau; esgeuluso plant neu'r aelwyd)<br><br>• Defnydd rheolaidd o sylweddau mewn sefyllfaoedd lle mae'n beryglus yn gorfforol (er enghraifft, gyrru cerbyd neu weithredu peiriant dan ddylanwad sylweddau)<br><br>• Problemau cyfreithiol rheolaidd sy'n gysylltiedig â sylweddau (er enghraifft, arestiadau am ymddygiad afreolus sy'n gysylltiedig â sylweddau)<br><br>• Defnydd parhaus o sylweddau er gwaethaf problemau cymdeithasol neu ryngbersonol parhaus neu reolaidd sydd wedi'u hachosi neu sydd wedi'u gwaethygu gan effeithiau'r sylwedd (er enghraifft, dadleuon gyda phartner ynghylch canlyniadau meddwdod, cwerylon corfforol) | | |
| **Manylion unrhyw ymgynghoriad cymunedol:** | Mae'r eiddo hyn yn rhan o ddatblygiad ehangach ar gyfer tenantiaeth gymysg wedi'u hadeiladu gan Llanmoor sy'n perthyn, bellach, i Cartrefi Caerffili | | |
| **Crynodeb o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb:** | | | |
| **Dyddiad gweithredu:** | **Ar unwaith** | | |
| **Dyddiad terfynu:** | **Hydref 2023** | | |
| **Amlder adolygu:** | **Bob blwyddyn** | | |
| **Trefniadau monitro ac adolygu:** | Mae gweithdrefnau tenantiaeth newydd Cartrefi Caerffili yn cynnwys ymweliadau a chyfarfodydd rheolaidd gyda chwsmeriaid, yn enwedig ym mlwyddyn gyntaf y denantiaeth.<br>Bydd Cartrefi Caerffili yn monitro cwynion a chanmoliaeth sy'n ymwneud â'r tenantiaethau hyn ac yn cofnodi canlyniadau unrhyw faterion neu ddigwyddiadau sy'n dangos perfformiad y polisi gosod tai lleol. | | |
| | | | |
| **Swyddog sy'n gwneud y cais:** | **Enw:** | **Elizabeth Willington** | |
| | **Swydd:** | **Rheolwr Ardal** | |

| | Sefydliad: | Cartrefi Caerffili |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | **DD/MM/BBBB** | |
| | | |
| **Penderfyniad y panel:** | **Wedi'i gymeradwyo / Wedi'i wrthod** | |
| **Dyddiad:** | **DD/MM/BBBB** | |
| **Manylion y penderfyniad:** | | |

Sicrhewch fod y ffurflen wedi'i llenwi cyn ei hanfon drwy e-bost diogel i'r tîm Cofrestr Tai Cyffredin ar CofrestrTaiCyffredin@caerffili.gov.uk. Os bydd angen i chi siarad ag aelod o'r tîm, ffoniwch 01443 873521.